**Cyngor Sir CEREDIGION**

**Adran y Prif Weithredwr**

**Ceisiadau am ollyngiad a wnaethpwyd gan Aelodau yn bersonol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg & Safonau.**

Paratowyd y nodyn hwn er mwyn cynorthwyo Aelodau sydd yn dymuno bod yn bresennol mewn person mewn Pwyllgor Moeseg & Safonau er mwyn cyflwyno cais am ollyngiad.

Disgwylid i Aelod sydd â budd personol yn y mater sydd o dan drafodaeth fel arfer ddatgelu budd a gadael y cyfarfod. Mae'r Pwyllgor Moeseg & Safonau felly wedi penderfynu rhoi gollyngiad i bob Aelod ymddangos o flaen y Pwyllgor i wneud cais am ollyngiad yn bersonol.

Noder os gwelwch yn dda y gall methiant i gydymffurfio â'r drefn ganlynol effeithio ar allu'r Pwyllgor i wneud penderfyniad cyflym a therfynol.

(1) Gweithdrefn

(a) Mae'n rhaid cwblhau ffurflen cais am ollyngiad a'i chyflwyno i'r Swyddog Monitro cyn y cyfarfod ym mhob achos, boed yr Aelod yn bresennol yn y cyfarfod ai pheidio. Gellir cael copïau o'r ffurflen (ar gael ar ffurf electronig neu ar bapur) oddi wrth y Swyddog Monitro neu'r Swyddog Safonau, a rhoddir y manylion cysylltu isod.

(b) Yn y cyfarfod gwahoddir Aelodau gan y Gadair i gyflwyno eu cais i'r Pwyllgor Moeseg & Safonau.

(c) Gall Aelodau o'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd er mwyn egluro unrhyw faterion sydd yn ymwneud â'r cais.

(ch) Ni chaniateir ymgeiswyr i ofyn unrhyw gwestiynau i'r Pwyllgor.

(d) Gofynnir i ymgeiswyr gyfyngu eu cyflwyniad i bum munud fan bellaf.

(dd) Ar ôl cyflwyno'r cais ac ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor (os o gwbl), mae'n rhaid i ymgeiswyr adael ystafell y cyfarfod ac ni ddylent fod yn y cyfarfod tra bo'r Pwyllgor yn cynnal trafodaeth.

(e) Ni fydd ymgeiswyr yn cael eu galw yn ôl i'r cyfarfod er mwyn cael eu hysbysu o'r penderfyniad ar ôl i'r Pwyllgor drafod. Bydd ymgeiswyr sydd yn aros hyd ddiwedd y cyfarfod yn cael eu hysbysu o benderfyniad y Pwyllgor gan y Swyddog Monitro neu'r Swyddog Safonau. Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn medru aros hyd ddiwedd y cyfarfod yn cael eu hysbysu o'r canlyniad yn ysgrifenedig.

(2) Noder nad oes angen i Aelodau fod yn bresennol yn bersonol a gallant barhau i ddefnyddio’r ffurflen Cais am Ollyngiad yn unig, os dymunant.

(3) Cyngor pellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach parthed y weithdrefn uchod, peidiwch ag oedi i gysylltu â’r Swyddog Monitro ar 01545 572050 neu’r Swyddog Safonau ar 01545 572068.